| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 20 Mawrth 2025 |
| **TEITL** | Torri Gwair a chynnal ymylon ffyrdd sirol |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 22 Chwefror 2024 |
| **AWDUR** | Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd June Jones |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

1.1 Craffwyd adroddiad cynnydd yng nghyswllt adolygiad o drefniadau cynnal ymylon ffyrdd Sirol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 22 Chwefror 2024.

1.2 Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ar y treialon torri a chasglu a oedd yn cymryd lle mewn ardaloedd dethol o fewn y Sir i hyrwyddo anghenion bywyd gwyllt a bioamrywiaeth. Nodwyd fod y treialon yn cyd-fynd a'r ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i wneud bioamrywiaeth yn rhan naturiol ac annatod o'u polisïau a'u prosesau yn unol ag Adran 6, Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

1.3 Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys manylion am y contract torri ymylon ffyrdd gwledig newydd yn ogystal â nodau ac amcanion yr Adran wrth symud ymlaen.

1.4 Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a gofynnwyd i'r Adran gyflwyno diweddariad ymhen blwyddyn.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

- Pa mor llwyddiannus yw'r treialon?
- A yw'r trefniadau torri gwair newydd yn hybu/gwella bioamrywiaeth?
- A oes gwaith pellach wedi ei wneud i edrych i mewn i'r posibilrwydd o'r Gwasanaeth Cynnal Tiroedd yn cynnig eu gwasanaethau i awdurdodau neu sefydliadau eraill sy'n dymuno gwneud gwaith tebyg er mwyn gwella eu ffyrdd a'u tiroedd er budd natur?

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

3.1 Mae rheolaeth ymylon ffyrdd Gwynedd yn hanesyddol wedi canolbwyntio ar ystyriaethau diogelwch y ffyrdd yn hytrach nag unrhyw fuddion ehangach fel cefnogi bioamrywiaeth.

3.2 Yn awyddus i wneud gwahaniaeth, a chwrdd dyletswyddau deddfwriaethol yn ogystal â gofynion strategol y Cyngor, datblygwyd cynllun ar y cyd gyda'r Adran Amgylchedd yn 2023/24 i dreialu cyfundrefn torri a chasglu ar safleoedd dethol ar yr A499 a'r A497 yn Nwyfor.

3.3 Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol i'r treialon cychwynnol; cymaint felly ei fod wedi sbarduno'r Adran i barhau a'r treialon presennol a sefydlu safleoedd treial newydd ym Meirionnydd y flwyddyn ariannol hon.

3.4 Yn ogystal, diwygiodd yr Adran manyleb ei chytundeb torri gwair gwledig newydd er mwyn cyfyngu ar faint o laswellt sy'n cael ei dorri'n flynyddol a thrwy hynny cynyddu'r arwynebedd ar ymylon ffyrdd sydd ar gael ar gyfer tyfiant blodau gwyllt.

3.5 I'r perwyl hwn, gofynnir am gefnogaeth y Pwyllgor i fwriad yr Adran i ymestyn y treialon i Arfon y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn creu mwy o goridorau bioamrywiaeth a chynorthwyo i gefnogi adferiad rhywogaethau sydd dan fygythiad.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

4.1 <u>Contract Torri Gwair Gwledig</u>

4.1.1 Mae ymylon ffyrdd gwledig, sef y ffyrdd sirol sydd tu allan i drefi a phentrefi, yn cael eu torri yn bennaf am resymau diogelwch h.y. er mwyn cynnal gwelededd da ar gyffyrdd, troadau ac ati i sicrhau bod gyrwyr, beicwyr a cherddwyr yn gallu gweld ymlaen yn ddirwystr.

4.1.2 Mae'r Adran yn tueddu i ymrwymo i gontract newydd ar gyfer gwasanaethau torri gwair gwledig (ar sail torri a gadael) bob dwy flynedd, gydag opsiwn i'w ymestyn yn flynyddol hyd at uchafswm o ddwy flynedd.

4.1.3 Mae'r gwaith torri wedi'i rannu i un deg saith is-ardal o fewn y sir gyda chontractwyr yn gallu cynnig am fwy nag un is-ardal hyd at uchafswm o wyth. Mae'r tendrau yn cael eu sgorio ar sail elfen fasnachol/cost (70%) ac elfen ansawdd/technegol (30%). Rhaid i'r holl waith torri ddechrau ar ddyddiad a bennir gan y Peiriannydd Ardal berthnasol a chael ei gwblhau o fewn cyfnod o 6 wythnos.

4.1.4 Arferai'r contract nodi bod ymylon ffyrdd gwledig y sir i'w torri ddwywaith y flwyddyn (rhwng Mai a Mehefin a rhwng Medi a Hydref) heb fawr o ystyriaeth i unrhyw beth heblaw am ddiogelwch y ffyrdd. Fodd bynnag, erbyn hyn, mae'r trefniadau wedi'u diwygio i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael yr un pwysigrwydd o leiaf â diogelwch y ffyrdd.

4.1.5 Amlygir y manteision o reoli ymylon ffyrdd er mwyn hyrwyddo bioamrywiaeth yn 4.3 isod.

4.1.6 Aeth yr Adran allan i dendr ar gyfer ei chontract torri gwair diweddaraf yn 2023/24. Newidiwyd y fanyleb i gyfyngu ar faint o laswellt oedd i'w dorri er mwyn cynyddu'r arwynebedd sydd ar gael ar gyfer tyfiant blodau gwyllt. O ganlyniad, yn y gwanwyn, ond ystod 1 metr o led sydd nawr yn cael ei dorri ar ymylon ffyrdd Dosbarth 1 a 2 gydag ymylon ffyrdd Dosbarth 3 a Di-ddosbarth yn cael eu gadael heb eu torri. Hefyd, yn yr hydref, mae lled llawn ymylon ffyrdd Dosbarth 1 a 2 yn cael ei dorri, yn ogystal ag ystod 1 metr o led ar ffyrdd Dosbarth 3 a Di-ddosbarth.

4.1.7 Gobeithir gallu paratoi'r contract torri gwair nesaf yn seiliedig ar ganlyniadau'r treialon torri a chasglu, h.y. bod y gwair ar lawer mwy o ymylon ffyrdd y sir yn cael ei dorri a'i gasglu yn hytrach na'i dorri a'i adael ar yr wyneb.

4.2 Cyd-destun deddfwriaethol a strategol mewn perthynas â bioamrywiaeth

4.2.1 Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru fodloni llawer o ddyletswyddau statudol i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac i hybu cydnerthedd ecosystemau, gan gynnwys y canlynol:

- **COP15 - Fframwaith amrywiaeth y Cenhedloedd Unedig i fynd i'r afael â'r golled fyd-eang o amrywiaeth ac adfer ecosystemau naturiol 2022.**
  *Diogelu 30% o ardaloedd daearol, dŵr mewndirol, ac ardaloedd arfordirol a morol erbyn 2030.*
- **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 - Adran 6**.
  *Dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i wneud bioamrywiaeth yn rhan naturiol ac annatod o'u polisïau a'u prosesau.*
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.
  *Dyletswydd ar awdurdodau lleol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.*
- **Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr yng Nghymru 2013**.
  *Cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer polisïau a llywodraethu cydgysylltiedig, a chynefinoedd gwell a mwy cysylltiedig, er mwyn mynd i'r afael â'r dirywiad mewn pryfed peillio yng Nghymru.*

4.2.2 Mae gofyn i swyddogion y Cyngor gydymffurfio a'r canlynol yn ogystal:

- **Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Gwynedd 2019**
  *Cynllun y Cyngor ar gyfer cyfarch ei ddyletswydd Adran 6 mewn perthynas â chynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu gwytnwch*.
- **Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022**
  *Cynllun y Cyngor i gyrraedd ei uchelgais o fod yn gyngor sero net erbyn 2030.*

4.3 Rheoli ymylon ffyrdd ar gyfer peillwyr

4.3.1 Mae pryfed peillio yn destun dirywiad byd-eang, yn bennaf oherwydd colli a darnio cynefinoedd. Gyda rheolaeth briodol, mae gan ymylon ffyrdd potensial arbennig o uchel i gefnogi pryfed peillio oherwydd eu bod yn ymgorffori amrywiaeth o fathau o gynefin gan gynnwys glaswelltir, gwlypdiroedd, gwrychoedd a phrysgwydd.

4.3.2 Yn hanesyddol, mae ymylon ffyrdd Gwynedd o bosib wedi cael eu torri'n rhy aml, ar yr adegau anghywir gyda gwair yn cael ei adael yn y fan a'r lle ar ôl torri. Fodd bynnag, nid yw'r math yma o reolaeth yn ddelfrydol i gefnogi pryfed peillio.

4.3.3 Cydnabyddir mai'r ffordd orau o gynorthwyo i gefnogi pryfed peillio, nid yn unig ar ymylon ffyrdd ond ardaloedd eraill o laswelltir, yw drwy fabwysiadu trefn thorri a chasglu yn hytrach na threfn torri a gadael. Mae casglu'r gwair ar ôl ei dorri'n bwysig oherwydd:

- ei fod yn atal llystyfiant marw rhag cronni a mygu planhigion eraill fel blodau gwyllt.
- ei fod yn gadael mwy o dir agored i ganiatáu i hadau dyfu.
- ei fod yn lleihau ffrwythlondeb pridd ac felly'n cynorthwyo i arafu twf rhai mathau o wair sy'n tagu blodau gwyllt.

4.3.4 Yn ogystal, mae angen lleihau ar y nifer o doriadau er mwyn rhoi cyfle i flodau gwyllt dyfu a ffynnu. Yn ddelfrydol, dim ond unwaith y flwyddyn y dylid torri a chasglu'r ymylon, a hynny o gwmpas mis Medi. Fodd bynnag, efallai hefyd y bydd angen toriadau ychwanegol yn ddiweddarach yn y flwyddyn, neu'n gynnar yn y flwyddyn ganlynol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

4.3.5 Dangosir y gyfundrefn torri gwair delfrydol ar gyfer cefnogi bioamrywiaeth yn **Atodiad 1.**

4.4 <u>Treialon torri a chasglu</u>

4.4.1 Ar y cyd gyda Gwasanaeth Bioamrywiaeth yr Adran Amgylchedd, datblygwyd cynllun i neilltuo safleoedd ar y rhwydwaith priffyrdd sirol i dreialu trefn torri a chasglu gwair er mwyn creu cynefinoedd mwy apelgar i bryfed peillio. O ganlyniad i'r cydweithio hwn, bu i'r Adran hefyd allu sicrhau cyllid drwy'r Bartneriaeth Natur Gwynedd i brynu offer arbenigol, megis tractor, peiriant casglu a belar fel y byddai'r Gwasanaeth Cynnal Tiroedd yn gallu gwneud y math yma o waith ei hun yn y dyfodol ac ennill arbenigedd yn y maes.

4.4.2 Lleolwyd y treialon cyntaf ar safleoedd dethol ar yr A499 a'r A497 yn Nwyfor. Dewiswyd y safleoedd hyn oherwydd eu bod yn syth, llydan a hir ac felly yn ddigon mawr i ddarparu data ystyrlon y gellid ei ddefnyddio yn y pen draw i gyfiawnhau newid trefniadau torri gwair hanesyddol yr Adran.

4.4.3 Mae lleoliadau'r safleoedd yn Nwyfor, ynghyd â safleoedd tebyg eraill a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Bioamrywiaeth, i'w gweld yn **Atodiad 2**:

4.4.4 Gall ymylon ffyrdd sy'n cael eu gadael heb eu torri yn ystod y gwanwyn gael eu hystyried yn flêr gan y cyhoedd a defnyddwyr ffyrdd. O ganlyniad, roedd yn hollbwysig ein bod yn rheoli canfyddiad y cyhoedd o'r treialon a hefyd hyrwyddo ein huchelgais i ymestyn y cynllun torri a chasglu yn y dyfodol. Felly, hysbyswyd pob Aelod Lleol a Chyngor Cymuned lle lleolwyd y safleoedd am y treialon a chodwyd arwyddion 'Iddyn Nhw', sef ymgyrch gan Lywodraeth Cymru i geisio newid meddylfryd pobl mewn perthynas â thorri gwair er budd natur, ar bob safle.

4.4.5 Mae manylion yr arwyddion 'Iddyn Nhw' i'w gweld yn **Atodiad 3**.

4.5 <u>Parhad o'r treialon</u>

4.5.1 Bu i'r canlyniadau ar lawr gwlad, a'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd am y treialon cychwynnol, sbarduno'r Adran, nid yn unig i barhau â'r treialon presennol ond i'w hymestyn i ffyrdd eraill o fewn y Sir. O ganlyniad, ymestynnwyd y treialon i ardal Meirionnydd y flwyddyn ariannol hon.

4.5.2 Mewn partneriaeth a'r Gwasanaeth Bioamrywiaeth, comisiynwyd ecolegydd lleol i adnabod ac archwilio safleoedd addas ar gyfer eu cynnal. Prynwyd offer arbenigol pellach, eto drwy'r Bartneriaeth Natur Gwynedd, i alluogi'r Adran i barhau â threialon a gwireddu ei nodau a'i amcanion yn y dyfodol.

4.5.3 Drwy ddilyn paramedrau tebyg i'r rhai a nodir yn 4.4.2 uchod, nododd yr ecolegydd tua saith prif safle ar y rhwydwaith a oedd yn addas i gynnal y treialon. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cyllid, dim ond dau safle a ddatblygwyd y flwyddyn ariannol hon, sef ar gyffordd yr A496 â'r A487 ger Maentwrog, a'r ffordd orllewinol yr A493 i Aberdyfi.

4.5.4 Mae lleoliadau'r safleoedd ym Meirionnydd i'w gweld yn **Atodiad 4.**

4.5.5 Fel y digwyddodd gyda'r treialon yn Nwyfor, cynhaliwyd asesiad o werth bioamrywiaeth pob safle cyn eu paratoi. Torrwyd a chasglwyd y gwair wedyn a chreithiwyd y wyneb i gael gwared ar lystyfiant anaddas. Yna, heuwyd y safleoedd gyda hadau blodau gwyllt cynhenid fel cribell felen (yellow rattle), sef blodyn sy'n cael ei ddefnyddio'n aml i greu neu adfer dolydd blodau gwyllt.

4.5.6 Gwelir lluniau o'r gwaith a gymerodd le ar y safleoedd yn **Atodiad 5**.

**5. Ymgynghori**

5.1 Cysylltwyd â'r Aelodau Lleol a'r Cynghorau Cymuned berthnasol cyn ymgymryd â'r gwaith ar y safleoedd, a chodwyd ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cynllun drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

5.2 Hyrwyddwyd y treialon gwreiddiol yn Nwyfor ar stondin y Cyngor ar faes Eisteddfod Llyn ac Eifionydd. Roedd hyn yn cydredeg ag ymgyrch yr Adran Amgylchedd i hyrwyddo eu cynllun Dolydd Blodau Gwyllt Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd dalgylch yr Eisteddfod.

**6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

6.1 Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

6.2 Hysbyswyd cymunedau lleol perthnasol o'r bwriad i gynnal y treialon yn eu hardaloedd a chodwyd arwyddion 'Iddyn Nhw' a ddyluniwyd gan Lywodraeth Cymru ar bob safle i hysbysu trigolion ac ymwelwyr o'r treialon a'r rhesymau dros eu cynnal. Roedd hyn yn cynorthwyo i leihau unrhyw gwynion neu sylwadau negyddol am edrychiad y safleoedd dros yr haf.

6.3 Mae'r Adran wedi cydweithio'n agos gyda Gwasanaeth Bioamrywiaeth yr Adran Amgylchedd ar bob un o'r treialon hyd yma ac yn cydweithio yn bresennol i ymestyn y treialon i rannau eraill o'r rhwydwaith priffyrdd sirol.

6.4 Yn ymwybodol o arbenigedd datblygol y Gwasanaeth Cynnal Tiroedd yn y maes hwn, mae nifer o gynghorau tref a chymuned wedi cysylltu â'r swyddogion i ofyn am gyngor ac i wneud gwaith tebyg yn eu hardaloedd ar eu rhan.

**7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

7.1 Mae'r Adran eisoes wedi cydnabod yr angen am asesiadau effaith. O ganlyniad, bydd asesiadau yn cael eu datblygu maes o law.

## 8. Camau Nesaf

8.1 Mae'r Adran yn awyddus i ehangu'r treialon i'r flwyddyn ariannol nesaf ac mae ymchwil i ganfod lleoliadau addas o fewn ardal Arfon eisoes wedi cychwyn. Unwaith eto, mae'r Adran yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Bioamrywiaeth i ddatblygu'r safleoedd a'r strategaeth wrth symud ymlaen.

8.2 Yn ogystal â gweithio ar ymylon ffyrdd, mae swyddogion y Gwasanaeth Cynnal Tiroedd wedi cychwyn cynnal treialon torri a chasglu eu hunain ar rai o'r tiroedd maent yn gyfrifol am eu cynnal. Un esiampl yw'r gwaith sy'n cael ei wneud ar safle Cerrig yr Orsedd, Caernarfon ble mae'r blodau a'r gwair wedi cael eu cynaeafu er mwyn gallu casglu'r hadau a'u hau ar safleoedd eraill sy'n isel mewn rhywogaethau planhigion cynhenid. Ystyrir bod y dechneg hon yn well na hau hadau blodau gwyllt masnachol neu blannu plwg-blanhigion. Mae'r Adran yn awyddus i annog a hybu dyheadau'r Gwasanaeth i barhau i ddatblygu ei arbenigedd yn y maes hwn.

8.3 Gwelir manylion y treialon hyn yn **Atodiad 6**.

8.4 Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, bydd yn cymryd amser i symud oddi wrth y ffordd draddodiadol o gynnal ymylon ffyrdd y sir fel eu bod o fudd i fyd natur yn y dyfodol. Fodd bynnag, nawr bod y gwaith wedi cychwyn, y cynharaf y gall ymdrechion yr Adran wneud gwahaniaeth. Y gobaith yw y bydd y treialon sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd, ac y bydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol, yn gwneud gwahaniaeth yn y pen draw drwy helpu i greu coridorau bioamrywiaeth er mwyn cefnogi adferiad rhywogaethau sydd dan fygythiad ac adfer poblogaethau toreithiog o bryfed sy'n hanfodol ar gyfer peillio cnydau a blodau gwyllt.

## 9. Gwybodaeth Cefndir

9.1 Gwelir rhagor o wybodaeth am fanteision rheoli ymylon ffyrdd er mwyn hyrwyddo bioamrywiaeth yn y ddogfen ganlynol gan Plantlife, sef elusen sy'n ceisio diogelu ac adfer yn ogystal â chysylltu pobl â natur: https://www.plantlife.org.uk/learning-resource/road-verge-green-space-management-best-practice/

## 10. Atodiadau

- **Atodiad 1:** Cyfundrefn torri gwair delfrydol ar gyfer cefnogi bioamrywiaeth
- **Atodiad 2:** Lleoliadau'r safleoedd treialon yn Nwyfor
- **Atodiad 3:** Manylion arwyddion 'Iddyn Nhw' gan Lywodraeth Cymru
- **Atodiad 4:** Lleoliadau'r safleoedd treialon ym Meirionnydd
- **Atodiad 5:** Lluniau o'r gwaith ar safleoedd Meirionnydd
- **Atodiad 6:** Manylion treialon y Gwasanaeth Cynnal Tiroedd